**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Remote Meeting on Dydd Mercher, 24ain Chwefror, 2021 at 10.00 am**

**YN BRESENNOL:**

**CYNRYCHIOLWYR CYNGHORWYR SIROL:**
County Councillors: R.John and T.Thomas

**CYNRYCHIOLWYR FFYDD:**
Revd. Peter Baines
Mrs. S. Gooding
Dr. L. Brown
Mr. A. Szwagrzak
Mrs S. Cave
Revd. J. Greaves

**CYNRYCHIOLWYR ATHRAWON:**
Mr. N. Jenkins
Mrs M. Millington

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Sharon Randall-Smith | Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad |
| Wendy Barnard | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Paula Webber | EAS |

**APOLOGIES:**

County Councillors P.Pavia and A. Webb

1. **Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb.**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r Parch J. Greaves sy'n ymuno â CYSAG gan gynrychioli Cyngor yr Eglwysi Rhyddion (Eglwys y Bedyddwyr) yn lle'r Parch P. Baines, sy'n ymddeol fel Gweinidog adeg y Pasg. Diolchwyd i'r Parch Baines am fod yn aelod o CYSAG a'i gyfraniad, a dymunwyd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

2. **Cofnodion y cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd ddydd Gwener 13 Tachwedd 2020 a materion yn codi**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

Cadarnhawyd y cafodd yr adroddiad blynyddol ei ddiwygio a'i anfon fel sydd angen.

Gofynnwyd bod pob swydd wag yn cael eu cofnodi ar yr Agenda.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Remote Meeting on Dydd Mercher, 24ain Chwefror, 2021 at 10.00 am**

## 3. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

## 4. Diweddariad Aelodaeth SACRE

Cadarnhawyd y swyddi gwag dilynol::

**Cynrychiolwyr y Cyngor Sir**:
2 le gwag ar gyfer Cynghorwyr Sir – Hysbyswyd Arweinwyr Grwpiau'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Bydd y Cadeirydd yn dilyn lan ar y ceisiadau hyn.

**Cynrychiolwyr Ffydd:**
1 lle gwag ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru – i ddilyn Dr. A. Daly – bydd yr Eglwys yng Nghymru yn rhoi gwybod am aelod newydd maes o law
1 lle gwag Hindŵaidd
1 lle gwag Iddewig
1 lle gwag Mwslimaidd
1 lle gwag Sikhaidd

**Cynrychiolwyr Athrawon:**
1 lle gwag i Athrawon yn lle Andrew Jones
1 lle gwag posibl yn lle Karen Christofi

**2 le gwag ar gyfer Aelodau Cyfetholedig**

## 5. Diweddariad gan Gynghorydd Addysg Grefyddol EAS:

Rhoddodd y Cynghorydd Addysg Grefyddol ddiweddariad a gefnogwyd gan gyflwyniad PowerPoint fel sy'n dilyn:

- Bil Cwricwlwm i Gymru: Roedd y Pwyllgor Addysg Plant a Phobl Ifanc wedi gwneud ychydig o ddiwygiadau wrth gwblhau Cam 2 e.e. newid 'Prydain Fawr' am 'Cymru'. Mae hefyd yn cynnwys adlewyrchu gofyniad bod amrywiaeth o gredoau damcaniaethol heb fod yn grefyddol a ddelir yng Nghymru. Yng nghyswllt aelodaeth, eglurwyd y byddai cynrychiolwyr heb fod yn grefyddol yn eistedd o fewn Pwyllgor A os y'i penodir i CYSAG. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i unrhyw arweiniad a roddir gan Weinidogion Cymru pan maent yn penodi pobl i grŵp cynrychioladol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i nerth crefydd a chredo yn ei ardal wrth wneud apwyntiadau i Grŵp A. Mae trafodaeth ar y cam 3 yn y Senedd ar 2 Mawrth 2021 a chaiff ei darlledu ar Deledu'r Senedd. Mae'r fframwaith ar gyfer Crefydd Gwerthoedd a Moeseg (RVE) yn y broses o gael ei golygu.

  Gofynnodd Aelod os oes unrhyw ddiwygiad i adlewyrchu prif grefyddau a safbwyntiau. Esboniwyd y bydd yn rhoi ystyriaeth i brif grefyddau (yn cynnwys credoau diwinyddol heb fod yn grefyddol) heb eu rhestru'n benodol.

- EAS: Mae adnoddau dysgu digidol a chyfunol ar gael ar wefan EAS ar gyfer RVE. Mae cyfarfodydd Rhwydwaith Dysgu Proffesiynol Dysgu a Dyniaethau yn parhau'n llwyddiannus. Caiff y cyfleoedd rhwydweithio a rhannu adnoddau eu cyfoethogi drwy gynnal cyfarfodydd o bell. Mae ysgolion cynradd yn edrych am ddysgu proffesiynol ac mae rhestr chwarae o ddeunyddiau yn cael ei datblygu. Bydd hyn ar gael i bob ysgol.

Mae cefnogaeth bwrpasol hefyd ar gael ar gais. Addewir adnoddau ar gyfer dysgu o bell ar Hwb ond nid ydynt ar gael hyd yma.

- TGAU: Mae tarfu yn parhau i fod ar TGAU ac eleni cânt eu dyfarnu ar fodel o raddau a benderfynir gan ganolfannau ar bapurau o'r gorffennol wedi eu diwygio. Ni fydd arholiadau. Mae adnoddau dysgu cyfunol hefyd ar gael gan CBAC.

- Estyn: Caiff Aelodau eu hannog i ddefnyddio'r dolenni yn y cyflwyniad gan nodi nad oedd unrhyw arholiad y llynedd ac felly na all CYSAG gynnal monitro ar hyn o bryd.

Gofynnodd Aelod pryd yr ymgynghorir â CYSAG ar fframwaith RVE yn cynnwys y fframwaith ar gyfer ysgolion ffydd. Credir fod cynlluniau i ymgynghori ar y framweithiau ond nid oes unrhyw fanylion pellach ar gael.

**6. <u>Ymateb i ymgynghoriad Cymwysterau Cymru 'Cymwys ar gyfer y dyfodol'</u>**

Mae Cymwysterau Cymru yn ymgynghori ar gymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae'n cynnig llunio'r ystod o gymwysterau ar gyfer Dyniaethau:

- Adolygu a diwygio TGAU mewn Busnes, Daearyddiaeth, Hanes ac Astudiaethau Crefyddol;
- Os yn ddichonadwy, creu TGAU newydd mewn Astudiaethau Cymdeithasol; ac
- Os yn ddichonadwy, creu TGAU integredig mewn Dyniaethau.

Soniodd y Cynghorydd Adnoddau Dynol am rai pwyntiau posibl i'w trafod::

- A ddylai cymwysterau ar wahân fod ar gael ar gyfer pob un o'r pum pwynt;
- Effaith TGAU integredig mewn Dyniaethau ar y gofyniad gorfodol i addysgu Addysg Grefyddol yn 14-16, a'r cwrs llawn. Mae Addysg Grefyddol yn orfodol tan 16 oed;
- Yr angen i gymwysterau fod yn hygyrch i bob dysgwr ac i gael eu gwobrwyo am ddwy flynedd o astudiaeth orfodol o Addysg Grefyddol;
- A ddylai cwrs byr TGAU Addysg Grefyddol barhau;
- Os caiff ei weithredu, byddai'r Bil Cwricwlwm ac Asesu yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o ysgolion a gyllidir yn gyhoeddus i ddilyn maes llafur cyffredin a gytunwyd. A fyddai diwygio hyn i feysydd llafur a gytunwyd yn lleol?
- Er yn caniatáu i rai ysgolion a gyllidir yn gyhoeddus gyda chymeriad crefyddol ddilyn maes llafur enwadol, a fyddai unrhyw gymhwyster diwygiedig y bwriedir iddo gefnogi elfen RVE y cwricwlwm i Gymru yn ddigon hyblyg i gefnogi gwahanol ddulliau gweithredu lleol; a
- Nid yw Cymwysterau Cymru wedi sôn am ymgynghori gyda CYSAG ac awdurdodau lleol.

Y cwestiynau yw:

1. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'n cynigon i adolygu ac ad-drefnu TGAU mewn Busnes, Daearyddiaeth, Hanes ac Astudiaethau Crefyddol?
2. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'n cynnig i greu TGAU newydd mewn Astudiaethau Cymdeithasol, os yw'n ddichonadwy?
3. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'n cynnig i greu cymhwyster TGAU Dyniaethau newydd integredig, os yw'n ddichonadwy?

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Remote Meeting on Dydd Mercher, 24ain Chwefror, 2021 at 10.00 am**

Cyfrannodd Aelodau CYSAG eu sylwadau fel sy'n dilyn:

- Mae Cymwysterau Cymru yn cyfaddef na ystyrir bod cymhwyster cyfun Dyniaethau yn ddichonadwy. Ychydig o gefnogaeth sydd mewn ysgolion gan e.e. adrannau Hanes a Daearyddiaeth;
- Pryder y byddai'r cynnwys Addysg Grefyddol mewn Dyniaethau integredig yn cael ei wanhau;
- Pryder am ddefnyddio athrawon heb fod yn arbenigol i addysgu'r elfen Addysg Grefyddol. Mae ychwanegu Astudiaethau Cymdeithasol yn ychwanegu at y pryder hwn;
- Mae'n bwysig cadw TGAU Addysg Grefyddol a chynnwys cwrs byr i gynnwys y maes llafur a gytunwyd; mae cymhwyster yn bwysig ar ddiwedd cwrs astudiaeth;
- Dylai pynciau dyniaethau fod ar wahân. Bydd yn rhy anodd i fyfyrwyr sy'n dymuno astudio ymhellach i deimlo'n barod a hyderus i ddechrau ar gwrs Lefel A mewn pwnc nad ydynt wedi ei astudio ar gyfer TGAU;
- Pryder y byddai cynnwys pob pwnc sy'n rhan yn cael eu gwanhau;
- Mae astudiaethau Estyn yn dangos fod defnydd da ar Addysg Grefyddol yng Nghymru a chanlyniadau da;
- Dylai ysgolion Gwladol a Ffydd gael yr opsiwn i wneud TGAU os dymunant yn ôl ymagwedd enwadol. Mewn ysgol wladol, byddai'n ddefnyddiol os yw myfyriwr eisiau gwneud math ysgol ffydd o TGAU, y dylent gael yr opsiwn hwn yn hytrach na'r TGAU arferol a gynigir mewn ysgolion gwladol;
- Mae llawer o ysgolion yn datblygu cwrs Dyniaethau ar gyfer myfyrwyr iau ym mlynyddoedd 7 ac 8. Mae angen sgiliau mwy penodol i addysgu TGAU;
- Yng nghyswllt y cwrs byr Addysg Grefyddol, mae pryder am gymhwyster NCFE Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (poblogaidd mewn ysgolion) y gellid ei weld fel bod yn cael ei gynnig yn lle Addysg Grefyddol;
- Byddai TGAU Dyniaethau integredig yn tanseilio'r holl bynciau cydrannol gan roi dyfnder annigonol sydd ei angen erbyn 16 oed ac nid yw'n paratoi myfyrwyr ar gyfer Lefel A;
- Dylai'r pum pwnc cael cymhwyster;
- Dylai pob disgybl astudio cwrs byr gorfodol;
- Gall ceisiadau i astudio gradd mewn Addysg Grefyddol neu Ddiwinyddiaeth mewn prifysgolion yn Lloegr, yr Alban a Chymru fod angen TGAU Addysg Grefyddol, yr un fath ar gyfer astudio'r pynciau cydrannol eraill. Ni fyddai Dyniaethau yn ddigonol ac mae'n rhaid i fyfyrwyr Cymru gael cyfle i fod yn gystadleuol yng Nghymru a gweddill y Deyrnas Unedig;
- A allai papur arholiad TGAU gael mwy o opsiynau i gynnwys opsiynau enwadol mewn ysgolion ffydd, neu i roi dewis enwadol i fyfyrwyr mewn ysgolion gwladol eraill;
- Dylid gwrthod TGAU Dyniaethau integredig o blaid cadw TGAU Addysg Grefyddol a gweithredu cwrs byr Addysg Grefyddol sy'n thematig ac yn cwmpasu'r maes llafur a gytunwyd;
- Os oes gan ysgolion Ddyniaethau yn CA3, mae'n anodd symud i bynciau ar wahân yn CA4;
- Gall rhoi'r opsiwn ar gyfer cyrsiau byr danio diddordeb myfyrwyr yn y cwrs llawn. Mae cael arholiadau dosbarth da yn galluogi myfyrwyr CA3 i weld myfyrwyr eraill yn symud ymlaen. Mae Addysg Grefyddol yn sylfaen dda ar gyfer llawer o yrfaoedd;
- Dylai'r cynnig o TGAU Dyniaethau fod yn ychwanegol at bynciau ar wahân;
- Mynegwyd pryder y byddai'r elfen Addysg Grefyddol yn cael ei ddysgu gan athrawon heb fod yn arbenigol. A fyddai hyn yn dibrisio'r cymhwyster ac yn effeithio ar geisiadau prifysgol;
- Mae penaethiaid eisiau canlyniadau mewn meysydd arbenigedd i fesur perfformiad adrannol;

- Mae'n well gan CYSAG i'r teitl fod yn Astudiaethau Crefyddol. Dylai gwerthoedd a moeseg fod yn rhan gyfrannol o'r holl bynciau yn y cwricwlwm.

Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Addysg Grefyddol yn paratoi drafft ymateb ac yn ei gylchredeg i'r grŵp ar gyfer sylwadau.

7. **Diweddariad CYSAG Cymru a nodi dyddiadau cyfarfodydd CYSAG Cymru yn y dyfodol a chadarnhau cynrychiolwyr:**

Cynhelir cyfarfod nesaf CYSAG Cymru ar 23 Mawrth 2021 (y noddwyr yw CYSAG Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili). Gall tri chynrychiolydd fynychu. Mynegodd Dr. L. Brown, Mrs S. Cave a'r Cynghorydd Sir T. Thomas ddiddordeb.

Mae CYSAG Cymru wedi cynnal arolwg mawr o staff addysgu sydd wedi dangos yr angen am ymagwedd genedlaethol at ddysgu proffesiynol ar gyfer RVE. Cyflwynir papur i Lywodraeth Cymru.

Gobeithir lansio gwefan newydd CYSAG Cymru yng nghyfarfod 23 Mawrth.

Anogwyd Aelodau i ddilyn CYSAG Cymru ar Twitter a Facebook.

8. **Cadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf CYSAG fel dydd Mercher 19 Mai 2021 am 10.00 am.**

Nodwyd dyddiad y cyfarfod nesaf. Cytunwyd y byddai dull o bell y cyfarfod yn parhau gyda'r golwg ar arbed amser teithio a chostau staff llanw.

Cytunwyd hefyd i gynnal cyfarfod wyneb-i-wyneb achlysurol, efallai blynyddol. Ystyriwyd hefyd yr opsiwn hybrid o gael rhai pobl yn ymuno â chyfarfodydd wyneb i wyneb o bell.

**Y cyfarfod diwedd yn 11.25 am**